## ATODLEN 5

Rheoliad 24

### Y gofynion ar gyfer seilos

**1.** Y gofyniad sydd i'w fodloni mewn perthynas â seilo yw ei fod yn cydymffurfio â'r darpariaethau a ganlyn yn yr Atodlen hon.

**2.** Rhaid i sylfaen y seilo—

(a) ymestyn y tu hwnt i unrhyw furiau sydd i'r seilo,

(b) cael o'i hamgylch sianelau sydd wedi eu dylunio a'u hadeiladu fel eu bod yn casglu unrhyw elifiant silwair sy'n dianc o'r seilo, ac

(c) bod â darpariaeth ddigonol ar gyfer draenio'r elifiant hwnnw o'r sianelau hynny i danc elifiant drwy sianel neu bibell.

**3.** Ni chaiff tanc elifiant dal llai nag—

(a) yn achos seilo sy'n dal llai na 1,500 o fetrau ciwbig, 20 litr ar gyfer pob metr ciwbig o'r hyn y mae'r seilo yn ei ddal, a

(b) yn achos seilo sy'n dal 1,500 o fetrau ciwbig neu fwy, 30 o fetrau ciwbig ac yn ychwanegol 6.7 litr ar gyfer pob metr ciwbig o'r hyn y mae'r seilo yn ei ddal uwchlaw 1,500 o fetrau ciwbig.

**4.**—(1) Rhaid i sylfaen y seilo—

(a) bod wedi ei dylunio yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dylunio strwythurau concrit i gadw hylifau dyfrllyd a gyhoeddir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 8007: 1987(**1**), neu

(b) bod wedi ei hadeiladu gan ddefnyddio asffalt wedi ei rolio'n boeth yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dewis a defnyddio deunyddiau adeiladu a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 21: 1990(**2**).

(2) Rhaid i sylfaen y seilo, sylfaen a muriau ei danc elifiant a sianelau a muriau unrhyw bibellau fod yn anhydraidd.

**5.** Rhaid i sylfaen a muriau'r seilo, ei danc elifiant a'i sianelau a muriau unrhyw bibellau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, allu gwrthsefyll ymosodiad gan elifiant silwair.

**6.** Ni chaniateir lleoli unrhyw ran o'r seilo, ei danc elifiant na'i sianelau nac unrhyw bibellau o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai elifiant silwair fynd i mewn iddynt pe bai'n dianc.

**7.** Os oes gan y seilo furiau cynnal—

(a) rhaid i'r muriau cynnal allu gwrthsefyll lleiafswm o lwythi mur sydd wedi eu cyfrifo ar y rhagdybiaethau ac yn y dull a ddangosir gan baragraff 15.6 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 22: 2003(**3**),

(b) ni chaniateir i'r seilo bod wedi ei lwytho ar unrhyw adeg i ddyfnder sydd uwchlaw'r dyfnder eithaf sy'n gyson â'r rhagdybiaeth ddyluniol a wnaed o ran llwythi y muriau cynnal, ac

(c) rhaid arddangos hysbysiadau ar y muriau cynnal yn unol â pharagraff 18 o'r cod ymarfer hwnnw.

---

(**1**) Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref 1987. ISBN 0-580-16134-X.
(**2**) Dyddiad cyhoeddi: 31 Rhagfyr 1990. ISBN 0-580-18348-3.
(**3**) Dyddiad cyhoeddi: 10 Mehefin 2003. ISBN 0-580-38654-6.

**8.** Yn ddarostyngedig i baragraff 9, rhaid i'r seilo, ei danc elifiant a'i sianelau ac unrhyw bibellau fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu fel y'u bod yn debygol, gyda'r gwaith cynnal a chadw priodol, o barhau i fodloni gofynion paragraffau 2 i 5 ac, os yw'n gymwys, paragraff 7(a) am o leiaf 20 mlynedd.

**9.** Os oes unrhyw ran o danc elifiant islaw wyneb y tir, rhaid i'r tanc fod wedi ei ddylunio a'i adeiladu fel ei fod yn debygol o barhau i fodloni gofynion paragraffau 4 a 5 am o leiaf 20 mlynedd heb waith cynnal a chadw.